

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Mercher, 9 Mawrth 2016 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Stuart Davies, Barry Mellor (Is-gadeirydd), Arwel Roberts, Cefyn Williams (Cadeirydd) a Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Pen Gyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol (HB) a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

HYSBYSIAD

Cytunodd y Cadeirydd i amrywio trefn y rhaglen er mwyn i unigolion gael rhoi sylw i eitemau penodol.

1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Richard Davies, Hugh Irving, Win Mullen-James a Pete Prendergast

2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Bu i'r Cynghorydd Barry Mellor ddatgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn Eitem 11 ar y Rhaglen - Adolygu Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat oherwydd ei fod yn adnabod y gyrrwr dan sylw yn yr adolygiad.

3 MATERION BRYG FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryg.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2015.

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2015 yn cael eu derbyn a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, tra bod yr eitemau canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y diffinnir hi ym Mharagraff 14 Rhan 4, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

5 GOLLYNGIAD O'R GOFYNIAD I ARDDANGOS PLATIAU TRWYDDED CERBYDAU HURIO PREIFAT

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw) ynghylch –

- (i) cais ar gyfer gollyngiad o'r gofyniad i arddangos platiau trwydded car Gerbyd Hurio Preifat;
- (ii) pwerau'r Cyngor i ganiatáu gollyngiad i berchenogion rhag arddangos plât trwydded gan ystyried natur weithredol y gwaith ynghyd ag ansawdd y cerbyd dan sylw a lle byddai'r cerbyd yn cael ei weithredu;
- (iii) bod yr ymgeisydd wedi rhoi ei fanylion llawn am y cerbyd a natur y busnes (Atodiad B);
- (iv) ffactorau penderfynu eraill y mae angen eu hystyried ynghyd â pholisi drafft y Cyngor wrth ystyried ceisiadau o'r fath (Atodiad A) ac amodau a awgrymwyd i'w hystyried (Atodiad C) pe bai aelodau o blaid caniatáu'r cais am ollyngiad.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu grynodedb o'r adroddiad a'r cais.

Ymhelaethodd yr Ymgeisydd ar waith a natur ei fusnes a'r rhesymau y tu ôl i'w gais am ollyngiad er mwyn diwallu anghenion ei gleientiaid a'i alluogi i gystadlu â busnesau sy'n cystadlu am yr un gwaith ag ef. Darparodd ddau ddatganiad ysgrifenedig gan gleientiaid presennol i gefnogi ei fusnes a darpariaeth arbennig ar gyfer cerbydau heb blatiau ond wedi eu trwyddedu.. Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau dadleuodd yr Ymgeisydd mai ef oedd yn y sefyllfa orau i ddewis cerbyd i ddiwallu anghenion a disgwyliadau ei gleientiaid a'i fod yn darparu gwasanaeth teithio penodol proffesiynol. Cadarnhaodd swyddogion pe bai aelodau o blaid caniatáu'r cais y byddai'r telerau a'r amodau perthnasol yn weithredol yn uno â cherbydau hurio preifat eraill a oedd wedi eu trwyddedu yn amodol ar ofyniad i arddangos plât trwydded a sticeri drws. Cadarnhawyd hefyd mai polisi presennol y Cyngor oedd trwyddedu cerbydau hyd at bump oed oni bai bod y cerbyd mewn cyflwr eithriadol, er bod y polisi hwnnw'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Neilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos –

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais am ollyngiad o'r gofyniad i arddangos plât a sticeri drws cerbyd hurio preifat ar sail yr amodau yn Atodiad C.

Dyma'r rhesymau a roddwyd am benderfyniad gan y Pwyllgor Trwyddedu -

Ar ôl ystyried yr adroddiad a chais yr Ymgeisydd, bu peth trafodaeth ynghylch a oedd manyleb y cerbyd yn bodloni gofynion eithrio o ran ansawdd moethus ac roedd barn gymysg am hynny. Roedd aelodau'n fodlon fod natur y gwaith yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eithrio yn yr achos hwn ac yn gyffredinol cytunwyd bod ansawdd y cerbyd hefyd yn bodloni'r meini prawf o ran manyleb gan ystyried anghenion cleientiaid yr Ymgeisydd a'r gwasanaeth pwrpasol a ddarparwyd. O

ganlyniad cytunwyd i ganiatáu'r cais. Roedd yr amodau wedi eu gosod er mwyn helpu i reoleiddio a gorfodi.

Wrth fynd heibio, cyfeiriwyd at y polisi drafft ar gyfer delio â cheisiadau i eithrio rhag arddangos platiau trwydded cerbydau hurio a sticeri drws. Nodwyd y byddai'r polisi'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo ac awgrymwyd defnyddio mwy o hyblygrwydd o ran manyleb y cerbyd gan ystyried anghenion rhai cleientiaid o safbwynt disgresiwn a bod yn anhysbys.

Felly cyflwynwyd penderfyniad a rhesymau'r pwyllgor i'r Ymgeisydd.

6 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/1123/TXJDR

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cyllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw) ynglŷn ag –

- (i) addaswydd Gyrrwr Rhif 15/1123/TXJDR i ddal trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat ar ôl cael 20 o bwyntiau cosb o dan gynllun pwyntiau cosb y Cyngor am gyflwyno cerbyd trwyddedig am brawf mewn cyflwr anniogel a pheryglus;
- (ii) roedd manylion am y diffygion a nodwyd ar ôl i'r cerbyd gael ei gyflwyno am brawf Cydymffurfio/MOT wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â datganiadau tyst a'r dogfennau cysylltiedig, a
- (iii) roedd y Gyrrwr wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r adolygiad o'i drwydded ac ateb cwestiynau'r aelodau wedi hynny.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodaeth yr adroddiad a manylodd ynghylch ffeithiau'r achos. Mewn achosion lle mae 20 neu fwy o bwyntiau cosb gan yrrwr mewn cyfnod o 24 mis, yr arfer yw cyfeirio'r mater i'r pwyllgor ei adolygu.

Cyflwynodd y Gyrrwr ymateb ysgrifenedig i gefnogi ei achos gan ddweud ei fod yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i ddiogelwch teithwyr ac na fyddai'n cludo teithwyr mewn cerbyd os gwyddai ei fod mewn cyflwr peryglus. Roedd y cerbyd wedi bod yn cael ei drwsio yn syth cyn ei gyflwyno ar gyfer MOT/Cydymffurfio a bu anghytuno ynglŷn â rhai o'r pethau a oedd wedi methu'r prawf. Cyn belled ag y gwyddai'r Gyrrwr roedd y cerbyd wedi bod mewn cyflwr da ar wahân i un broblem gyda'r brêcs. Roedd wedi bod yn yrrwr tacsis am gryn amser heb gŵyn flaenorol yn ei erbyn.

Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i holi'r Gyrrwr am amgylchiadau'r achos yn cynnwys cyflwr cyffredinol y cerbyd a'r drefn gynnal a arweiniodd at dynnu sylw at y ffaith bod y cerbyd mewn cyflwr peryglus ac yntau'n gyrru'r cerbyd gan wybod hynny. Mewn ymateb i gwestiynau ailadroddodd y Gyrrwr ei fod wedi mynd â'r cerbyd i'w drwsio wythnos cyn yr archwiliad a bod gwaith wedi ei wneud arno gan gofio cyflwr y cerbyd. Roedd llwch y tu mewn a thu allan i'r cerbyd ar ôl y gwaith trwsio ac roedd wedi ceisio ei lanhau yn yr amser cyfyngedig a oedd ar gael. Roedd wedi gyrru'n syth o'r garej i'r orsaf brawf pan sylwodd fod problem gyda'r brêcs ond ni allai ddwyn i gof eu bod wedi dweud wrtho ar yr adeg y methodd y prawf nad

oedd y cerbyd yn ddiogel i'w yrru. Roedd wedi gyrru'r cerbyd o'r orsaf brawf gyda'r bwriad o'i drwsio. Sicrhaodd y Gyrrwr y pwyllgor ei fod yn archwilio 'r cerbyd bob dydd a'i fod yn cael ei wasanaethu bob tri mis.

Wrth wneud datganiad terfynol dywedodd y Gyrrwr ei fod yn ystyried ei hun yn yrrwr da a'i fod yn fodlon derbyn awgrymiadau gan y pwyllgor ynglŷn â threfn gynnal a chadw'r cerbyd yn y dyfodol yn sgil y methiannau presennol.

Neilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos -

PENDERFYNWYD atal y drwydded yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat a roddwyd i Yrrwr Rhif. 15/1123/TXJDR ar sail diogelwch y cyhoedd yn syth.

Dyma resymau a roddwyd am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Yn ystod trafodaethau rhoddodd aelodau ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a gyflwynwyd a chais y Gyrrwr i gefnogi'r adolygiad o'i drwydded. Nid oedd y pwyllgor yn ystyried bod adroddiad y Gyrrwr o'r digwyddiadau'n gredadwy oherwydd byddai wedi gwybod bod y cerbyd mewn cyflwr budr iawn, yn ogystal â'r llwch ar ôl y gwaith trwsio, gan fod rhai i'w gweld yn amlwg ac roedd nifer o arwyddion eraill nad oedd yn cael ei gynnal yn briodol. Yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, cyflwynodd y Gyrrwr ei gerbyd i gael ei archwilio gan wybod bod problem gyda'r brêcs, a themlai'r pwyllgor ei fod yn amlwg nad oedd yn deall ei gyfrifoldebau fel gyrrwr trwyddedig a'r angen i gynnal ei gerbyd i safon dderbyniol. Mynegwyd pryderon difrifol fod y Gyrrwr wedi methu â chynnal y cerbyd i safon ddiogel a'i fod wedi gyrru'r cerbyd gan wybod bod diffygion difrifol arno ar ôl methu'r prawf MOT a'i fod wedi rhoi'r cyhoedd mewn perygl. O ganlyniad ystyriai'r pwyllgor nad oedd y Gyrrwr yn unigolyn addas a phriodol i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat a phenderfynwyd atal ei drwydded yn syth er mwyn diogelwch y cyhoedd.

Felly cafodd penderfyniad a rhesymau'r pwyllgor eu cyfleu i'r Gyrrwr a dywedwyd wrtho fod ganddo hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Llys Ynadon o fewn un diwrnod ar hugain.

7 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/0427/TXJDR

Bu i'r Cynghorydd Barry Mellor ddatgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon oherwydd ei fod yn adnabod y gyrrwr dan sylw ac felly ni allai gymryd rhan yn y drafodaeth yn yr achos hwn. O ganlyniad nid oedd cworwm ac nid oedd y pwyllgor yn gallu bwrw ymlaen i wrando ar yr achos.

Cytunwyd i gynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Trwyddedu cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol gwneud hynny i ystyried adolygu'r drwydded.

SESIWN AGORED

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod dychwelodd y cyfarfod i sesiwn agored.

8 POLISI GWERTHWYR METEL SGRAP ARFAETHEDIG

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn cyflwyno Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 - Datganiad o Bolisi Trwyddedu i'w ystyried a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghori.

Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r broses gais yn flaenrol gan ddirprwyo pŵer a ffioedd ar gyfer trwyddedau angenrheidiol o dan y Ddeddf Delwyr Metel Sgrap. Hysbyswyd Aelodau ynghyd dull ar y cyd gydag awdurdodau eraill Cymru i baratoi polisi drafft a oedd yn ceisio helpu swyddogion gyda'r drefn orfodaeth a sicrhau cysondeb wrth ddelio gyda cheisiadau. Byddai'r polisi hefyd yn ganllaw i ymgeiswyr newydd, deiliaid trwydded presennol a'r cyhoedd ynglŷn â'r ffordd y byddai'r Ddeddf yn cael ei gweinyddu a'i gorfodi. Yn sgil ymgynghori â phartion perthnasol byddai adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ei fabwysiadu (nid i Gyngor Llawn fel y cyfeirid ato yn yr adroddiad). Cadarnhaodd Swyddogion y byddai angen trwydded hefyd ar fasnachwyr teithiol.

PENDERFYNWYD –

- (a) *cymeradwyo Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 – Datganiad o Bolisi Trwyddedu fel y manylir yn Atodiad A;*
- (b) *bod cynnal cyfnod ymgynghori addas i'r rhai sydd wedi eu trwyddedu gan Sir Ddinbych o dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap yn 2013, Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithasau Diwydiant yn cael ei gymeradwyo, ac*
- (c) *awdurdodi swyddogion bod unrhyw ymatebion perthnasol a dderbynnir o ganlyniad i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried ac os yw'n berthnasol bod y polisi'n cael ei ddiwygio'n unol â hynny cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.*

9 YSTYRIED HYFFORDDIANT I YRWYR TRWYDDEDIG

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn argymhell hyfforddiant mandadol ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar gyfer gyrwyr trwyddedig yn dilyn nifer o faterion diogelu diweddar o broffil uchel o gwmpas y sir, yn arbennig mewn perthynas â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant a chysylltiadau â cherbydau trwyddedi awdurdod lleol.

Cyfeiriwyd yn benodol at ganfyddiadau ymchwiliad yr Athro Alexis Jay i gamfanteisio ar blant yn Rotherham rhwng 1997 a 2013 a oedd yn tynnu sylw at rôl amlwg gyrwyr tacsï a oedd â chysylltiad uniongyrchol â phlant a oedd yn cael eu cam-drin. Roedd cynllun hyfforddi ar gyfer gyrwyr trwyddedig yng Nghonwy wedi ei gyflwyno ym Medi 2015 ac roedd partneriaid diogelwch cymunedol hefyd yn annog y dull hwn yn Sir Ddinbych.

Croesawodd aelodau'r bwriad i gyflwyno cynllun hyfforddi mandadol i helpu i ganfod materion cam-fanteisio a diogelwch a gofynnwyd am ymestyn yr hyfforddiant hefyd i weithredwyr hurio preifat. Nodwyd fod rhai gyrwyr a drwyddedig

gan awdurdodau eraill hefyd yn gweithredu yn Sir Ddinbych ond nad oedd gan y Cyngor unrhyw gyfrifoldeb am ddarparu hyfforddiant iddynt. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai'r Cyngor arfer peth rheolaeth wrth ddyfarnu contractau ysgolion i weithredwyr y tu allan i'r sir. Cytunodd swyddogion i gysylltu â chydweithwyr cludiant ysgolion er mwyn gwneud hyfforddiant diogelwch i yrwyr trwyddedig sy'n gweithredu yn Sir Ddinbych yn amod mandadol o fewn contractau ysgolion yn y dyfodol. Wrth ystyried y fformat hyfforddi dywedodd swyddogion y byddai pecyn hyfforddiant wedi ei deilwra ar gyfer Sir Ddinbych yn cael ei ddefnyddio a byddai'n cynnwys nifer o ddigwyddiadau drwy'r sir. Roedd aelodau hefyd yn awyddus i ddatblygu hyfforddiant ffurfiol, fel BTEC neu gymhwyster cyfatebol i yrwyr trwyddedig.

PENDERFYNWYD—

- (a) *bod swyddogion yn cael eu cyfarwyddo i gyflwyno hyfforddiant mandadol ar ymwybyddiaeth diogelwch i holl yrwyr cerbydau hacni trwyddedig yn Sir Ddinbych a gyrwyr a gweithredwyr hurio preifat yn ystod 2016, a*
- (b) *bod swyddogion yn cael eu cyfarwyddo i baratoi cais ar gyfer hyfforddiant ffurfiol i yrwyr a gweithredwyr trwyddedig.*

10 ADOLYGIAD O BOLISI A GWEITHDREFN PWYNTIAU COSB CYFREDOL

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw) a oedd yn cyflwyno Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb Diwygiedig i'w cymeradwyo yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol.

Roedd y ddogfen yn manylu ynghylch y modd yr oedd y Cyngor yn delio â mân achosion o dorri amodau trwyddedau tacsis ac roedd yn cynnwys nifer o newidiadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu ym Medi 2015. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ni wnaed unrhyw newid pellach i'r cynllun.

Ymatebodd swyddogion i gwestiynau ynglŷn â gorfodi'r polisi a chadarnhawyd bod gan y Cyngor ar hyn o bryd ddau Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu. Mynegodd y Cynghorydd Stuart Davies bryderon ynglŷn â hurio traws ffiniol ond cadarnhaodd swyddogion fod yr arfer yn gyfreithlon. Dylai unrhyw bryderon ynglŷn â thrwyddedu'r cerbydau hynny gael sylw gan yr awdurdod trwyddedu perthnasol. Nodwyd hefyd fod nifer y pwyntiau cosb am ysmegu mewn cerbyd trwyddedig wedi codi i 10 pwynt ac os cafwyd rhywun yn euog byddai hysbysiad cosb sefydlog yn cael ei gyflwyno.

PENDERFYNWYD –

- (a) *cymeradwyo'r Polisi a'r Weithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig fel y manylir yn Atodiad A yn lle'r Cynllun Pwyntiau Cosb 2014 presennol*
- (b) *bod y cynllun yn cael ei weithredu'n syth.*

11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw) ar flaenraglen waith y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2016. Yr unig newid ers y cyfarfod diwethaf oedd adolygu'r Polisi Sefydliadau Rhyw, roedd yr eitem hon wedi llithro ac wedi newid o Fawrth i Ragfyr 2016.

PENDERFYNWYD *bod rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu'n cael ei chymeradwyo.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.